

DROS

11

Mesur y Llŵ

Mae gan blant a phobl ifanc 42 o hawliau o dan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae'r 42 o hawliau yn rhoi'r hyn y mae plant a phobl ifanc ei angen i dyfu i fyny yn hapus, iach a diogel.

Darllenwch grynodedb o bob hawl










Enw: Llofnod:

Dyddiad: Gweithiwr Cymdeithasol:

Mae'r Llŵ yn gyfres o addewidion yn seiliedig ar hawliau'r plentyn. Dylai'r holl oedolion sy'n gweithio gyda chi sicrhau mai'r llŵ yw'r hyn sy'n digwydd go iawn – os nad yw hynny'n digwydd yna rhowch wybod i ni!

ADRAN	GRADDFA (TICIWCH OS GWELWCH YN DDA)	SYLW
DIOGEL - Byddwn yn eich helpu i'ch cadw yn ddiogel ac i fod yna i chi pan fyddwch ein hangen ni.		
IACH - Byddwn yn eich helpu i fyw bywyd iach yn gorfforol ac yn feddyliol.		
GONESTRWYDD - Byddwn yn dweud wrthyfch am bopeth sydd gennych yr hawl iddo mewn ffordd agored ac eglur.		

Dylai'r plentyn/person ifanc lenwi'r ffurflen hon. Gall eu gweithiwr cymdeithasol neu berson arall o'u dewis eu cefnogi nhw i wneud hyn os oes angen. Gwnewch yn siŵr fod gan bob plentyn/person ifanc gopi llawn o'r llŵ er mwyn gallu cyfeirio ato.

ADRAN	GRADDFA (TICIWCH OS GWELWCH YN DDA)	SYLW
<p>CYSONDEB - Byddwn yn ceisio peidio â newid eich gweithiwr cymdeithasol oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud hynny. Os oes raid i ni newid eich gweithiwr cymdeithasol, byddwn yn dweud wrthy ch y rheswm dros wneud hynny.</p>		
<p>CARTREF - Byddwn yn rhoi lle cyson i chi fyw lle byddwch yn teimlo'n ddiogel ac wedi gofalu amdanoch.</p>		
<p>CYSWLLT - Pan yn bosib byddwn yn eich helpu i weld eich teulu a phobl eraill sy'n bwysig i chi.</p>		
<p>CYMRYD SYLW O'R HYN SYDD GENNYCH I'W DDWEUD - Byddwn yn darparu ffyrdd gwahanol i chi fynegi eich barn fel bod pobl yn clywed eich llais. Byddwn yn gwrando ac yn cymryd eich safbwyntiau o ddifri. Byddwn yn eich helpu i fynd i'r afael â'ch problemau.</p>		
<p>PARCH - Byddwn yn eich trin mewn ffordd gyfeillgar a pharchus ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n parchu eich cyfrinachedd a'ch preifatrwydd.</p>		
<p>LLWYDDO - Byddwn yn eich cefnogi i feddu sgiliau byw'n annibynnol, i'ch paratoi wrth i chi fynd yn hyn i adael gofal yn llwyddiannus, i ddod yn oedolion ac i fyw ar eich pen eich hunain.</p>		
<p>CYFLAWNI - Byddwn yn eich helpu i gael hwyl ac i gyflawni pethau gwych, yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau eraill.</p>		
<p>CYMDEITHASU - Byddwn yn eich cefnogi i ymuno â gweithgareddau, grwpiau a sefydliadau o'ch dewis fel nad ydych yn teimlo'n unig.</p>	